**GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU**
**MANYLEB PERSON**

| | |
|---|---|
| **ADRAN** | Hyfforddi a Datblygu |
| **TEITL Y SWYDD** | Datblygydd Amlgyfrwng |
| **RHIF Y SWYDD** | 504044 |
| **GRADD** | 8 |
| **LLEOLIAD** | Canolfan Hyfforddi a Datblygu Porth Caerdydd<br>(Disgwylir i chi weithio o leoliadau eraill ar draws ardal y Gwasanaeth) |

Bydd meini prawf hanfodol a ddynodir **mewn print bras gyda serenig*** yn cael eu defnyddio at ddibenion llunio rhestr fer. Sicrhewch eich bod yn mynd i'r afael â'r gofynion hyn yn eich Ffurflen Gais (o dan yr adran 'Profiad a Gwybodaeth Arall'). Dylech ddarparu tystiolaeth glir sy'n dangos eich bod yn bodloni pob maes yn seiliedig ar eich sgiliau, gwybodaeth, profiad a galluoedd sy'n berthnasol i'r swydd.

Pan amlygir cymhwyster fel 'Meini Prawf Hanfodol', bydd gofyn i chi ddarparu copi o'ch Tystysgrifau gyda'ch Ffurflen Gais.

| Ffactor | Tystiolaeth | Hanfodol/ Dymunol | Modd Adnabod |
|---|---|---|---|
| **Gwybodaeth/ Profiad** | **Profiad blaenorol o ddarparu datrysiadau amlgyfrwng*** | **Hanfodol*** | **Ffurflen Gais*/ Proses Ddethol** |
| | Dealltwriaeth o greu amrywiaeth o ddeunyddiau gyda'r defnyddiwr/cwsmer mewn golwg. | Hanfodol | Proses Ddethol |
| | **Profiad o weithio gydag Adobe Creative Suite (gan gynnwys Photoshop a Premier Pro) a meddalwedd awduro Articulate (neu becynnau Meddalwedd tebyg)*** | **Hanfodol*** | **Ffurflen Gais*/ Proses Ddethol** |
| | Profiad o weithio gyda Lectora, Articulate neu becynnau Meddalwedd tebyg | Dymunol | Ffurflen Gais/Proses Ddethol |
| | Profiad o becynnau Microsoft gan gynnwys Power Point a Word | Hanfodol | Ffurflen Gais/ Proses Ddethol |
| | Profiad o ddal a gweithio gyda delweddau fideo a llonydd | Dymunol | Ffurflen Gais/ Proses Ddethol |
| | Gallu siarad Cymraeg | Dymunol | Ffurflen Gais |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Arddull Bersonol** | Gallu croesawu a gwerthfawrogi amrywiaeth a dangos agwedd deg a moesegol ym mhob sefyllfa | Hanfodol | Proses Ddethol |
| | **Y gallu i gynnal agwedd hyderus a hydwyth mewn sefyllfaoedd hynod heriol.*** | **Hanfodol*** | **Ffurflen Gais/ Proses Ddethol*** |
| | **Rhagweithiol wrth gefnogi newid, a'r gallu i addasu'r dull gweithredu i fodloni gofynion newidiol.*** | **Hanfodol*** | **Ffurflen Gais/ Proses Ddethol*** |
| **Rhyngbersonol** | Y gallu i gyfathrebu'n effeithiol ar lafar ac yn ysgrifenedig i ystod eang o gynulleidfaoedd | Hanfodol | Proses Ddethol |
| | Y gallu i arwain, cynnwys ac ysgogi eraill o fewn y Gwasanaeth Tân ac Achub ac yn y gymuned. | Hanfodol | Proses Ddethol |
| | **Ymrwymiad i a'r gallu i ddatblygu eich hunan, unigolion, timau ac eraill, er mwyn gwella effeithiolrwydd sefydliadol.*** | **Hanfodol*** | **Ffurflen Gais/ Proses Ddethol*** |
| **Tasg** | Gallu deall a chymhwyso gwybodaeth berthnasol i wneud penderfyniadau priodol a chreu datrysiadau ymarferol. | Hanfodol | Proses Ddethol |
| | Gallu cynnal ymwybyddiaeth weithredol o'r amgylchedd i hyrwyddo gweithio diogel ac effeithiol | Hanfodol | Proses Ddethol |

**Bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus ymgymryd â Phrawf Cyffuriau ac Alcohol cyn y gwneir unrhyw benodiad.**

**Gall y rôl hon gynnwys teithio rhwng safleoedd ledled De Cymru. Rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus allu teithio'n annibynnol.**

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg ac rydym yn croesawu gohebiaeth yn y naill iaith neu'r llall.**

Datblygydd Amlgyfrwng - Mawrth 2024
Awdur: Erica Lawry - Arweinydd Tîm Datblygu Amlgyfrwng